

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 16 GORFFENNAF 2026

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO CYNHALIWDYD O BELL – DRWY MICROSOFT TEAMS
DDYDD IAU, 16 GORFFENNAF 2026 AM 10:00

Presennol yn Rhithwir

G Chapman – Cadeirydd - (Aelod Lleyg)

Presennol yn Rhithwir

A R Berrow
M L Hughes

O Clatworthy
J Llewellyn-Hopkins

S Easterbrook
RL Penhale-Thomas

RM Granville

Aelodau Lleyg - Presennol yn Rhithwir

A Bagley

B Olorunnisola

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

D Austin (Aelod Lleyg)

Swyddogion:

J Norman

Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

Officers:

Jake Morgan
Carys Lord
Nigel Smith
Kate Pask
Rachel Keepins
Simon Roberts
Andrew Wathan
David Williams
Stephen Griffiths
Michael Pitman

Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid
Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd
Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Uwch Ymchwilydd Twyll
Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol
Archwilio Cymru
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd

304. Cymeradwyo'r Cofnodion

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwywyd Cofnodion y cyfarfod ar 18 Mehefin 2026 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Gorffennaf 2026

305. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Atodiad A). Nodwyd, er bod adroddiad ar lywodraethu Harbwr Porthcawl i fod i fod i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor, cynigiwyd mai ffordd fwy priodol ymlaen fyddai gofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (GAMRh) gynnal ymchwiliad, yn hytrach nag archwiliad llawn, o'r materion sy'n peri pryder, ac i'r
----------------------	---

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 16 GORFFENNAF 2026

	canfyddiadau gael eu hadrodd i'r Pwyllgor ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Nododd Aelod fod adroddiad archwilio arall ar Harbwr Porthcawl, a chynigiodd y Cadeirydd, os yw'n briodol ac yn berthnasol, y gellid ei atodi i'r adroddiad gyda chanfyddiadau ymchwiliad GAMRh. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredu a darparodd sylwadau, fel y bo'n briodol. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor: • Bod y gwaith arfaethedig ar lywodraethu Harbwr Porthcawl yn cael ei wneud gan GAMRh. • Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid yn ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gwblhau'r briff archwilio ar gyfer y gwaith. • Bod cynnwys yr adroddiad archwilio presennol ar Harbwr Porthcawl yn cael ei rannu, os yw'n briodol ac yn berthnasol, gydag Aelodau'r Pwyllgor pan adroddir canfyddiadau'r gwaith y gofynnwyd amdano i'r Pwyllgor.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Gorffennaf 2026

306. Datganiad Cyfrifon 2025-26

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon heb ei archwilio ar gyfer 2025-26 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Atodiad A). Nodwyd nad oedd cyfrifon drafft y Cyngor yn cynnwys ffigurau ar gyfer 2025-26 eto o'i chyfran o incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC). Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau'r materion canlynol: • Roedd gwall yn y cofnod am Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe yn yr adran Praeseptau ac Ardollau (t.66) o'r adroddiad. Cyfeiriodd at Awdurdod y Porthladd yn hytrach nag at yr Awdurdod
----------------------	--

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 16 GORFFENNAF 2026

	lechyd Porthladd. • Y swm sy'n ddyledus (£1,253,947) i'r Cyngor, a'r rhesymau dros hynny, ar 31 Mawrth 2026 gan Fwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Nodwyd ei fod yn fater amseru, sy'n gysylltiedig â phryd y paratowyd y cyfrifon. • Y rhesymau dros lithriad o ran prosiectau cyfalaf, a'i effaith ar wariant cyfalaf flwyddyn ar ôl blwyddyn. • Y nodyn ynghylch safonau a gyhoeddwyd ond heb eu mabwysiadu eto, ac a ellid ei gwneud yn gliriach pryd y byddai'r safon yn cael ei mabwysiadu a'i effaith ar gyfrifon y Cyngor. • Mae'r cynnydd yn nifer y swyddogion (82 i 150) yn y band taliadau £60,000 - £64,999 ac a fyddai nodyn esboniadol yn gwella'r Datganiad. Nodwyd mai canlyniad dyfarniadau cyflog oedd hyn: Mabwysiadwyd y bandiau yn 2014 ac nid oeddent wedi newid ers hynny, ond ers hynny bu dyfarniadau cyflog, sydd wedi gwthio nifer o staff i'r band hwnnw. • Yr amgylchedd cyfraddau llog yn y flwyddyn i ddod a'i effaith bosibl ar ddull y Cyngor o werthuso risgiau Rheoli Trysorlys. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Datganiad Cyfrifon heb ei archwilio i 2025/26.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Gorffennaf 2026

307. Datganiad Harbwr Porthcawl 2025-26

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon heb ei archwilio ar gyfer 2025-26 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Atodiad A). Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau gwpl o faterion: • O ystyried yr ardoll o £15,000 a dalwyd i Awdurdod lechyd Porthladd Bae Abertawe yn 2025-26, roedd angen ystyried a ddylid cydnabod yr ardoll yn y Datganiad. Nododd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd y byddai angen iddo edrych ar hynny a byddai'n adrodd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.
----------------------	--

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 16 GORFFENNAF 2026

	• A allai Harbwr Porthcawl hunan-ariannu. • Yr addasiadau cyfrifyddu yng nghyd-destun cyfran o orbenion corfforaethol. <u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Ddatganiad Harbwr Porthcawl 2025-26.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Gorffennaf 2026

308. Datganiad Llywodraethiant Blynyddol (DLIB) 2025-26

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2025-26 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. <u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft a chytunodd i'w gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon heb ei archwilio 2025-26.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Gorffennaf 2026

309. Adroddiad Aildro Rheoli'r Trysorlys 2025-26

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o weithgarwch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026. Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan y Cyngor £99.72 miliwn o ddyled hirdymor, £12.87 miliwn o rwymedigaethau hirdymor eraill a sefyllfa ddyled net gyffredinol o £68.09 miliwn. Y gyfradd llog gyfartalog ar gyfer dyled oedd 4.63% ac ar gyfer buddsoddiadau, y ffigur oedd 4.73%. Mae gan y Cyngor strwythur
----------------------	---

	aeddfedrwydd o fenthycha sydd wedi'i reoli, gyda'i ddyled bresennol yn ad-daladwy ar wahanol adegau dros y 30 mlynedd nesaf. Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau gwpl o faterion: • Parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg i fenthycha er mwyn cyflawni'r agenda trawsnewid. Mewn ymateb i'r drafodaeth, atgoffodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid yr Aelodau y dylid gwneud gwaith ar barodrwydd i dderbyn risg, gyda swyddogion ac Aelodau. Roedd hyn yn ganlyniad i uchelgais y Cyngor i wneud newidiadau sylweddol ledled y Fwrdeistref, y ffordd y mae'n gweithio, a'r rhaglen foderneiddio ysgolion fawr. Byddai'r tri yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol a gallai gael effaith ar strategaeth Rheoli Trysorlys. • Nodwyd na fyddai gwerthu asedau yn ffynhonnell sylweddol o arian i gefnogi'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol. Roedd nifer yr asedau a oedd dros ben i'r gofynion yn fach iawn. Hefyd, parhaodd y Cyngor i fod yn ddibynnol ar grantiau Llywodraeth Cymru. • Roedd angen dealltwriaeth glir pan fydd y Cyngor yn benthyg arian, mae canlyniad refeniw i hynny. Byddai angen asesiad priodol o gyllid a'r risg a chostau refeniw cysylltiedig. • Nododd y Prif Weithredwr fod cost i beidio â benthyca o ran cynnal asedau er enghraifft, a bod y Cyngor yn sylweddol danfenthyg o'i gymharu ag unrhyw awdurdod lleol cyfatebol yng Nghymru neu Loegr. • Byddai angen i'r Cyngor fod yn synhwyrol wrth symud ymlaen ond os yw'r Cyngor yn mynd i fod yn uchelgeisiol i'w gymunedau a buddsoddi mewn seilwaith, yna byddai'n rhaid gwneud dewisiadau. • Cafodd y tîm a gynhyrchodd yr adroddiad eu canmol am eu gwaith. <u>PENDERFYNWYD:</u> Gwnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: • Nodwyd gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. • Nodwyd Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn gyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025-26.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Gorffennaf 2026

310. Adroddiad Twyll Corfforaethol Blynyddol 2025-26

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd darparu Adroddiad Twyll Corfforaethol Blynyddol 2025-26 i Aelodau'r Pwyllgor, a oedd yn crynhoi'r camau a gymerwyd o ran gwrthdwyll yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu diweddariad ar ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol. Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion: • A oedd erlyniadau yn cael eu prosesu gan gorff allanol. Nodwyd eu bod i gyd wedi'u cynnal yn fewnol gan dîm cyfreithiol y Cyngor. Cynhaliwyd unrhyw beth yr ymchwiliwyd iddo, gan arwain at erlyniad, ochr yn ochr â'r Adran Gwaith a Phensiynau fel rhan o unrhyw drefniadau gweithio ar y cyd, trwy'r GEG. • Erlyniadau sy'n gysylltiedig â thwyll grantiau a chaffael. Mewn ymateb, nodwyd bod nad oedd unrhyw erlyniadau o'r math hwn wedi bod. • Yr ymdrechion a wnaed i dalu'r Dreth Gyngor trwy sieciau twyllodrus. Roedd y rhain wedi'u nodi ac nid oedd unrhyw golled ariannol i'r Cyngor. • Yr amser a gymerwyd i gwblhau rhai erlyniadau. O ran yr achos penodol a godwyd, nodwyd bod yr oedi o ganlyniad i gymhlethdod yr ymchwiliad a'r amser a gymerodd i baratoi'r achos, yn hytrach nag unrhyw beth i'w wneud â system y llysoedd. • Y broblem o ran yr ysgol Gyfun a dalodd £967.20 i gyflenwr, yr oedd ei fanylion banc hefyd wedi'u newid, yr oeddent wedi'i ddefnyddio o'r blaen ar gyfer nwyddau nad oeddent erioed wedi'u derbyn a gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud i sicrhau nad oedd ysgolion yn colli mwy o arian. Mewn ymateb, nodwyd bod ysgolion wedi cael eu hatgoffa o'r prosesau i'w dilyn ar gyfer gwneud taliadau i leihau'r risg o unrhyw ymgais neu dwyll gwirioneddol. Bydd yr ysgol unigol yn destun ymweliad gan Archwilio Mewnol i adolygu'r prosesau sydd ar waith a chryfhau rheolaethau. • P'un a oedd, gyda datblygiad Deallusrwydd Artiffisial (DA) a thechnolegau eraill, wedi newid ac a oedd y Cyngor yn barod ar ei gyfer, o ran canfod a gallu mynd i'r afael ag ef. Mewn ymateb, nododd swyddogion nad oeddent wedi gweld enghreifftiau o geisio twyllo o ganlyniad i DA ond cydnabuodd fod ansawdd anfonebau ffug wedi dod yn broblem ond roedd systemau ar waith i'w canfod. Os oedd gwendidau yn systemau cyllid y Cyngor, cawsant eu diweddarau a'u cryfhau ac roedd rhaglen helaeth o brofi ac adolygu seiberddiogelwch. • Gofynnodd y Cadeirydd a oedd mecanwaith adrodd i'r cyhoedd adrodd honiadau o dwyllo, ac a ellid gwneud hynny'n ddienw. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Swyddog Twyll fod mecanwaith ond
-----------------------------	--

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 16 GORFFENNAF 2026

	roedd rhai meysydd yn y ffurflen yn orfodol ac nid oedd rhai, fel y rhai i ddarparu enw a chyfeiriad. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Twyll Corfforaethol Blynnyddol 2025-26, y camau sydd ar waith i gefnogi gwelliant parhaus, y gwaith sy'n cael ei wneud i atal a chanfod twyll a gwallau a'r diweddariad ar y Fenter Twyll Genedlaethol. Diolchodd y Pwyllgor i'r awdur am gynhyrchu adroddiad mor gynhwysfawr
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Gorffennaf 2026

311. Diweddariad Traciwr Rheoleiddiol

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y Traciwr Rheoleiddiol gyda gwybodaeth ychwanegol a nodiadau esboniadol lle mae argymhellion wedi parhau i fod yn ddyledus ers nifer o flynyddoedd. Yn chwarter 4 2025-26 cyhoeddwyd pedwar adroddiad archwilio/arolygu cyn 30 Mehefin 2024 sydd â chyfanswm o wyth argymhelliad yn dal ar agor. Roedd y rhain fel a ganlyn: • Archwilio Cymru, Adolygiad Strategaeth Ddigidol (Ebrill 2024) – Dau argymhelliad (Oren). • Ymweliad Gwiriad Gwelliant AGC â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant (Tachwedd 2022) – Dau argymhelliad (Gwyrdd). • Bwrdd y Rhaglen Arweinyddiaeth Trawsnewidiol, Adolygiad Llywodraethu Sylfaenol CTM BPRh (Ionawr 2023) – Tri argymhelliad (Melyn). • Archwilio Cymru, Adolygiad o'r Trefniadau i Ddod yn 'Gyngor Digidol' (Medi 2021) – Un argymhelliad (Amber) Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:
----------------------	---

	• Tynnodd y Cadeirydd sylw at 'PR8 - Sicrhau nad yw plant yn cael eu rhoi mewn gwasanaethau heb eu cofrestru a bod yn rhaid iddynt barhau â'u hymdrechion i nodi lleoliadau cofrestredig addas' (Gwiriad Gwelliant AGC Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant (Tachwedd 2022), a'r dyddiad cyflwyno presennol sef mis Mawrth 2030. Dywedodd y byddai'n croesawu diweddariad ar yr hyn sy'n cael ei wneud cyn y dyddiad hwnnw a sut mae'r camau yn cael eu monitro. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr nad oedd gan y Cyngor unrhyw blant wedi'u lleoli mewn lleoliadau Gweithredu Heb Gofrestru, a bod y dyddiad targed yn adlewyrchu natur gyfnewidiol y sefyllfa bresennol a pha mor doredig oedd y farchnad ar gyfer y mathau hyn o leoliadau. • Nododd fod awdurdodau lleol wedi bod yn araf i reoli'r farchnad wrth iddi ddod yn fwyfwy tameidiog, ac wedi'i phreifateiddio, a chronfeydd rhagfantoli'n defnyddio lleoliadau heb eu cofrestru at eu dibenion eu hunain. • Nododd yr ystod o gamau sy'n cael eu cymryd cyn y dyddiad hwnnw. • Ymatebodd y Cadeirydd drwy nodi y byddai'n ddefnyddiol pe bai, yn hytrach na chael dyddiad gorffen o Fawrth 2030, bod rhai o feysydd manwl y cynllun gweithredu yn cael eu nodi, gan y byddai hynny'n rhoi sicrwydd i'r Aelodau fod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith. Cytunodd y Prif Weithredwr ac ychwanegodd ei fod yn gobeithio na fyddai mwy o leoliadau o'r math hwn, neu pe bai'r sefyllfa yn codi byddai'n fod ar sail hollol eithriadol am gyfnod byr o amser. • Tynnodd Aelod Lleyg sylw at 'PE11 - Sicrhau bod pobl yn teimlo'n gyson bod ganddynt lais a'u bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch' (o dan yr un pennawd â'r drafodaeth flaenorol), a'r dyddiad cyflwyno presennol sef Mawrth 2027. Nododd nad oedd yn glir pam fod hyn yn parhau heb ei wneud. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr mai cysondeb oedd y mater, a bod hwn yn faes a oedd bob amser yn mynd i fod yn waith yn mynd rhagddo. Roedd yn meddwl eu bod wedi cyrraedd y pwynt lle gallai siarad â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles am lofnodi hwn ac y byddai'n cael ei adeiladu mewn patrymau gweithio cyffredinol yn y dyfodol. • Roedd Aelod Lleyg o'r farn y byddai'n dda gwybod beth fyddai'n ei gymryd i gau eitem. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Polis a Pherfformiad fod cynlluniau i adolygu'r fframwaith perfformiad a gellid meddwl sut i drin camau rheoleiddio gan nad oedd yn ddefnyddiol eu trin yn yr un modd ag ymrwymadau cynllun corfforaethol. Roedd gwahaniaethau rhyngddynt, ond cawsant eu trin yn yr un modd felly arweiniodd hynny atyn nhw'n aros ar y traciwr pan nad oedd angen iddynt fod yno. • Tynnodd yr un Aelod Lleyg sylw at y camau gweithredu a nodwyd i ddatblygu Strategaeth Ddigidol newydd a gofynnodd a ddylid nodi'r un dyddiad cyflawni i'r ddau. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad y byddai'n siarad â'r swyddogion sy'n pryderu am y dyddiadau ac yn diweddarau'r Aelodau maes o law. Ychwanegodd y Prif Weithredwr nad oedd yn credu bod y Strategaeth Ddigidol wedi adlewyrchu'r uchelgais yr oedd angen i'r Cyngor ei gael, a bod Pennaeth
--	--

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 16 GORFFENNAF 2026

	Digidol newydd ar fin dechrau gwaith, a'u tasg gychwynnol fyddai cwblhau'r Strategaeth Ddigidol. • Gofynnodd yr un Aelod Lleyg am ddiweddariad ar yr adolygiad llywodraethu sylfaenol ar gyfer Bwrdd y Rhaglen Arweinyddiaeth Drawsnewidiol – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg (Awst 2022). Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad fod yr Arweinydd Rhanbarthol yn awyddus i weithio gyda Phen-y-bont ar Ogwr i weld a allai rhai o'r camau gweithredu sydd angen parhau ar agor gael eu cau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd hi'n gobeithio diweddarau'r Aelodau gyda chanlyniadau'r drafodaeth honno yn yr adroddiad nesaf i'r Pwyllgor. <u>PENDERFYNWYD:</u> Ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y pwyntiau cryno a'r rhesymau dros y camau gweithredu sy'n weddill heb eu bodoli, nododd feysydd sydd angen gweithredu pellach, a gofynnodd fod y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Polisi a Pherfformiad yn symud y rheini yn eu blaenau.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Gorffennaf 2026

312. Blaenraglen Waith 2026-27

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Blaenraglen Waith wedi'i diweddarau ar gyfer 2026-27, yn enwedig yr eitemau a drefnwyd i'w cyflwyno yn y cyfarfod nesaf, a gynhelir ar 24 Medi 2026. Nodwyd y dylai'r gwaith arfaethedig ar Harbwr Porthcawl, a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod, gymryd ei gwrs a gellid cyflwyno'r canfyddiadau wedyn i gyfarfod o'r Pwyllgor pan fydd wedi'i gwblhau. <u>PENDERFYNWYD:</u> Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Blaenraglen Waith wedi'i diweddarau ar gyfer 2026-27.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Gorffennaf 2026

313. Eitemau Brys

Penderfyniad a Wnaed	Dim
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Gorffennaf 2026

I wyllo dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:31.